

Adroddiad i'r	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y cyfarfod	10 Mehefin 2021
Aelod/Swyddog Arweiniol	Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol / Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio
Awdur yr Adroddiad	Nicola Kneale, Rheolwr y Tîm Cynllunio Strategol / Iolo McGregor, Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Teitl	Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2020 i 2021

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyd-fynd ag Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft y Cyngor ar gyfer 2020 i 2021 (ynghlwm yn atodiad 1), sy'n darparu ein dadansoddiad chwarterol a diwedd blwyddyn ac yn amlygu prosiectau penodol a'r camau ar gyfer eu cyflawni yn 2021 i 2022.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu gwybodaeth am gynnydd y Cyngor wrth gyflawni canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol yn chwarter 4, 2020 i 2021, gan gyflawni ein rhwymedigaeth statudol i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar berfformiad erbyn Hydref 31 dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Mae hefyd yn ymateb i'n dyletswydd i fonitro cydraddoldeb (dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur Cymru 2011, sy'n cynnwys y Ddyletswydd Economaidd Gymdeithasol newydd); ein cyfraniadau i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; ac am y tro cyntaf, mae'n ymateb i'r gofyniad i hunanasesu dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

- 2.2. Rhoi gwybod i aelodau am brosiectau'r Cynllun Corfforaethol y bwriedir eu cyflawni yn 2021 i 2022, y mae'n rhaid i'r Cyngor eu cyhoeddi i fodloni ei ddyletswydd gwella dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.
- 2.3. Mae adroddiadau rheolaidd yn un o ofynion monitro hanfodol fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor. Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd ac yn cyflwyno adroddiadau bob chwarter blwyddyn i gyfarfodydd y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet, ac yn llunio Adolygiad Perfformiad Blynyddol i werthuso cynnydd.
- 2.4. Ceisir adborth ar gynnwys yr Adolygiad Perfformiad Blynyddol drafft hwn ar gyfer 2020 i 2021 cyn i'r Cyngor gymeradwyo'r ddogfen derfynol ym mis Gorffennaf.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1. Argymhellir bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ystyried yr adroddiad ac yn cytuno ar unrhyw gamau pellach sydd eu hangen i ymateb i unrhyw faterion sy'n gysylltiedig â pherfformiad a amlygir yn yr adroddiad.

4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2017-2022 yn gosod cyfeiriad strategol y Cyngor a'i flaenoriaethau dros y cyfnod o bum mlynedd. Nodir manylion yr hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud bob blwyddyn i helpu cyflawni'r blaenoriaethau hyn yn y cynlluniau gwasanaeth blynyddol. Mae'r prosiectau yn deillio o Gynlluniau Gwasanaethau a Rhaglenni. Adroddir ar gynnydd i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad, y Cabinet a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) drwy ein Hadroddiadau Perfformiad Chwarterol.
- 4.2. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol hwn yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o lwyddiant y Cyngor i gyflawni yn erbyn y cynlluniau hyn yn ystod 2020 i 2021, ac yn dangos a yw'r Cyngor wedi llwyddo yn ei rwymedigaeth i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus. Mae hefyd yn edrych tua'r dyfodol at yr hyn fydd yn cael ei gyflawni yn 2021 i 2022.
- 4.3. Am y tro cyntaf, mae'n cynnwys pennod 'peilot' newydd i fodloni'r angen i hunanasesu dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae'n canolbwyntio ar saith maes llywodraethu allweddol. Gan dynnu ar dystiolaeth gyhoeddadedig sydd ar gael o ffynonellau mewnol ac allanol, ac edrych ar ddata y

cytunwyd arno gan yr Uwch Reolwyr, mae'r bennod yn darparu darlun ehangach o'r cyd-destun y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo wrth gyflawni ei amcanion perfformiad. Mae hefyd yn ceisio amlygu unrhyw gamau gweithredu allweddol i wella perfformiad wrth symud ymlaen. Drafftwyd yr adroddiad yn y ffordd hon yn dilyn cyngor annibynnol a gafwyd drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), a chawsom ein sicrhau y bydd, ar y cyd â'n gwerthusiad arferol o berfformiad yn erbyn ein blaenoriaethau corfforaethol, yn bodloni'r gofyniad newydd i gynhyrchu hunanasesiad blynyddol dan y Ddeddf.

4.4. Yn ogystal â'n pennod newydd ar lechyd Corfforaethol, mae Atodiad 1 yn cynnwys naratif am ein cynnydd wrth ddarparu ein blaenoriaethau corfforaethol, gan gynnwys y statws presennol a chynnydd y rhaglen. O fewn is-adran pob blaenoriaeth gorfforaethol, mae yna hefyd adrannau ar Les a Chydraddoldeb sy'n nodi ein cyfraniadau i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Cydraddoldeb 2010 a Mesur Cymru 2011 (sy'n cynnwys y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol). Yn ogystal â Chydraddoldeb ac Amrywiaeth, rydym hefyd yn gwerthuso ein cyfraniad i'r Iaith Gymraeg a Datblygu Cynaliadwy, ac yn amlygu unrhyw negeseuon allweddol o'n rheolyddion a data a gyhoeddwyd yn genedlaethol. Mae'r Gofrestr Prosiectau Corfforaethol a'r Gofrestr Risg Gorfforaethol hefyd i'w gweld yng nghefn y ddogfen.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Mae'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys gwerthusiad o lwyddiant y Cyngor i gyflawni yn erbyn ei blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen Aseiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn. Cynhaliwyd Aseiad o Effaith ar Les ar y Cynllun Corfforaethol ei hun, a chafodd ei gyflwyno i'r Cyngor Sir pan gymeradwywyd y cynllun ym mis Hydref 2017. Yn dilyn hynny, bydd prosiectau/rhaglenni gwaith unigol o fewn y Cynllun Corfforaethol wedi cael eu

hasesu yn unigol, yn yr un modd ag unrhyw gamau gweithredu newydd wrth symud ymlaen.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Datblygwyd yr adroddiad gan y Tîm Cynllunio Strategol mewn ymgynghoriad â gwasanaethau eraill y Cyngor. Mae adborth eisoes wedi'i geisio ar yr adroddiad gan yr UDA a'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio (mae'r olaf bellach yn ofyniad dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021). Yn dilyn y Pwyllgor Craffu Perfformiad, bydd ymgynghoriad pellach yn cael ei gynnal gyda'r Cabinet ar 29 Mehefin cyn iddo gael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan y Cyngor Sir ar 6 Gorffennaf 2021.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol arwyddocaol yn codi o'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Byddai peidio â chyhoeddi'r Adolygiad Blynyddol erbyn y dyddiad cau ar 31 Hydref yn debygol o arwain at argymhellion statudol gan Swyddfa Archwilio Cymru, gyda goblygiadau sylweddol i enw da'r Cyngor.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Mae'r Cynllun Corfforaethol a'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn elfennau allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella (2010), sy'n cael ei hategu gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Wrth symud ymlaen, bydd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) yn berthnasol.

11.2. Mae Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 Cyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau a dyletswyddau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â chraffu ar berfformiad yr Awdurdod.